

CYFARFOD	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD	29 Medi 2026
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor GwE am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mai 2025 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – • Datganiad o'r Cyfrifon GwE 2025/26 yn dilyn archwiliad; • Datganiad Llywodraethu Blynnyddol GwE; • Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru; • Llythyr Sylwadau.
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2025/26, ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r llythyr sylwadau ar gyfer GwE.
AWDUR	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Bu i GwE, sef Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwellu Ysgolion Rhanbarthol ddod i ben 31 Mai 2025, o ganlyniad nid oedd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod ar ôl y dyddiad yma. Mae cyfrifon 2025/26 yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd gan mai Cyngor Gwynedd oedd y cyngor lletyol oedd yn gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.2 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.3 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.4 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor GwE yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

2. CYFRIFON 2025/26

- 2.1 Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw GwE am 2025/26 am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025 ar ffurf adroddiad “alldro”, a'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2025/26 (yn amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Gorffennaf 2026.
- 2.2 Fe ryddhawyd Datganiad o'r Cyfrifon GwE am 2025/26 (yn amodol ar archwiliad) i'r Archwilydd ar 2 Ebrill 2026 gan eu rhoi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 17 Ebrill 2026.

3. ARCHWILIAD

Mae'r cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru dros y misoedd diwethaf, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler ar dudalen 5 o'r adroddiad ei fod yn nodi “barn ddiamod ar y cyfrifon” ar gyfer 2025/26.

4. CYFRIFON TERFYNOL 2025/26

Cyflwynir yma Ddatganiad o'r Cyfrifon GwE am 2025/26 (yn dilyn archwiliad). Mae'r materion a godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon GwE 2025/26 (yn dilyn archwiliad)

6. LLYTHYR SYLWADAU

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau, yn electronig, wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Catherine Mealing-Jones) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon yn dilyn iddi dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid.